

Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022
353- Beirniadaeth Prosiect Llenyddol Blwyddyn 7,8,9
Beirniad – Nia Wynn Davies

Cafwyd 3 phrosiect ar Gwyn, Coch a Gwyrdd ac un prosiect ar Y Pandemig. Rhaid llongyfarch yr holl ymgeiswyr ar greu prosiect llenyddol diddorol a difyr i'w ddarllen.

Grŵp Ysgol Bro Morgannwg: Cafwyd yma amrywiaeth o gyfansoddiadau, yn ymson, dyddiadur, disgrifiadau, stori fer, cerddi, adroddiad. Mae gan aelodau'r grŵp hwn feistrolaeth sicr ar ffurf, gafael wirioneddol dda ar iaith, geirfa gyfoethog, a gwneir defnydd canmoladwy iawn o dechnegau arddull i roi lliw ar iaith. Ceir aeddfedrwydd yn yr ysgrifennu ymhob cyfansoddiad. Biti nad oes cyflwyniad i'r holl brosiect er mwyn creu mwy o undod ac i esbonio'r cyswllt â'r lliwiau.

Genod Gwych: Dyma brosiect taclus sy'n cynnig amrywiaeth da o gyfansoddiadau dan bennawd pob lliw. Ceir yma gerdd, erthygl ffeithiol, araith, blog, dyddiadur, disgrifiadau, ymson, bwletin. Mae'r ysgrifennu'n hyderus, mae hyd i'r cyfansoddiadau, a cheir yma iaith a geirfa dda. Cyflwynwyd y cyfan yn drefnus, a gwnaed defnydd pwrpasol o liw a llun i ychwanegu elfennau gweledol fel cefnlen i'r cyfansoddiadau.

Tafodau Tawe: Dyma brosiect swmpus o 32 cyfansoddiad amrywiol eu ffurfiau. Ceir rhagarweiniad i esbonio'r cyswllt thematig â'r lliw a threfnwyd y cyfan dan bennawd pob lliw. Canmolir adnoddau iaith a chywirdeb yr ymgeiswyr, eu meistrolaeth ar y gwahanol gyweiriau iaith a'u gallu i amrywio arddull. Mae Heddwch, Cymru a'r Amgylchedd wedi tanio dychymyg yr ymgeiswyr hyn a'u hysbrydoli i greu cyfansoddiadau safonol a darllenadwy.

Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

YHR: Ysgrifennwyd y prosiect ar gôt labordy wen - addas iawn i brosiect ar Y Pandemig! Rhoddwyd sylw i'r brechlyn, effaith y pandemig ar addysg ac amaeth, y GIG, a'r mwgwd. Defnyddiwyd esboniadau, cerddi, llythyr, sloganau, swigod siarad, ymson a fideo byr. Braidd yn bytiog yw'r cyfansoddiadau llenyddol, fodd bynnag. Ond, mae'r syniad yn wreiddiol a gellir dychmygu'r hwyl wrth weithio ar y prosiect.

Oherwydd amrywiaeth a safon y cyfansoddiadau, a'r cynllun hynod drefnus, gosodir Tafodau Tawe yn gyntaf; oherwydd aeddfedrwydd yr ysgrifennu a'r afael arbennig ar iaith, rhoddir YBM yn 2il; ac oherwydd cynnwys diddorol, amrywiaeth yn y ffurfiau ysgrifennu, a'r afael ganmoladwy ar iaith, gosodir Genod Gwych yn 3ydd.

1af - Tafodau Tawe

2il - Grŵp Ysgol Bro Morgannwg

3ydd - Genod Gwych